OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 392 (Cy.40)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Bwyd (Tsilis Poeth a Chynhyrchion Tsilis Poeth) (Rheolaeth Frys) (Diwygio)(Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*16 Chwefror 2004*
Yn dod i rym - -	*17 Chwefror 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â mesurau sy'n gysylltiedig â bwyd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Teitl a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd (Tsilis Poeth a Chynhyrchion Tsilis Poeth) (Rheolaeth Frys) (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 17 Chwefror 2004.

Diwygiadau i Reoliadau Bwyd (Tsilis Poeth a Chynhyrchion Tsilis Poeth) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2003

2.—(1) Caiff Rheoliadau Bwyd (Tsilis Poeth a Chynhyrchion Tsilis Poeth) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2003(**3**) eu newid yn unol â pharagraff (2).

(2) Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli) —

(a) yn lle'r diffiniad o "Penderfyniad y Comisiwn" ("*the Commission Decision*") rhodder y diffiniad canlynol —

> "ystyr "Penderfyniad y Comisiwn" ("*the Commission Decision*") yw Penderfyniad y Comisiwn dyddiedig 21 Ionawr 2004 ar fesurau brys mewn cysylltiad â tsilis a chynhyrchion tsilis;"; a

(b) yn lle'r diffiniad o "tsilis poeth a chynnyrtsilis poeth" ("*hot chilli and hot chilli products*") rhodder y diffiniad canlynol —

> "ystyr "tsilis poeth a chynhyrchion tsilis poeth"("*hot chilli and hot chilli products*") yw —

(**1**) O.S. 2003/2901.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 2003/2455 (Cy.238).